

Darganfod Bryniau

Am Ddim

Clwyd

POLION

Cerdded Nordig ym
Mryniau Clwyd

LOGGERHEADS

yn chwifio'r Faner Werdd

PAN FYDD BUSNESAU'N YMUNO

Liwyddo ym Mhrestatyn

Arweiniad i Fryniau Clwyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)



CYNNWYS

- 2 Croeso i Darganfod Bryniau Clwyd
- 4 Gobaith i'r rhostiroedd grug
- 6 Polion
- 7 Loggerheads yn ennill gwobr
- 8 Y Dechnoleg newydd....
- 10 O Lerpwl i Loggerheads
- 12 Pan fydd busnesau'n ymuno
- 14 Taith gerdded Geoamrywiaeth
- 16 Gwasanaeth bws Bryniau Clwyd



Croeso i Fryniau Clwyd, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dyma ichi 62 milltir sgwâr o dirwedd donnog a gafodd ei gwarchod am ei harddwch, diwylliant, geoamrywiaeth a bioamrywiaeth.

Dynodwyd yr ardal yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1985. Hon yw'r ardal a ddynodwyd yn fwyaf diweddar o'r pump AHNE sydd yng Nghymru. Ynghyd â'r tri Pharc Cenedlaethol, hwy yw'r unig dirweddau sydd o dan warchodaeth statudol yng Nghymru.

Rhed Bryniau Clwyd o dref arfordirol Prestatyn yn y gogledd i ddyffryn coediog Nant y Garth ger Llandegla yn y de. Ar ben Moel Famau, y fan uchaf, sy'n 554 metr ceir Tŵr y Jiwbiili.

Nodwedd y dirwedd hon yw'r rhostiroedd eang, y brynau dan orchudd o rug, y creigiau calchfaen a'r cymoedd cudd. Gellir mwynhau nifer fawr o olygfeydd gwych o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n rhedeg ar hyd cefnen y brynau. Wrth galon yr AHNE saif Parciau Cefn Gwlad Loggerheads a Moel Famau.

Partneriaeth rhwng Cyngorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint sy'n rheoli Bryniau Clwyd AHNE. Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n arwain rheolaeth Bryniau Clwyd ar ran y bartneriaeth gyda chymorth ac ariannu oddi wrth nifer o sefydliadau partner fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gennym dîm rhyfeddol o wirfoddolwyr ac o bobl a busnesau lleol sy'n gweithio'n ddiflino i warchod ac i wella'r AHNE.

Yn y cylchgrawn hwn tynnir eich sylw at pam mae'r ardal anhygoel hon yn lle gwych ar gyfer twristiaeth gynaliadwy i'r bobl leol ac i ymwelwyr.

Gan obeithio y byddwch yn mwynhau eich profiadau ar Fryniau Clwyd.

Barn unigol y rhai a gyfrannodd yw'r farn a fynegir yma.




Ni all Cyngor Sir Ddinbych dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau nac esgeulustod.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



BLE RYDYM NI?



Y Tîm AHNE

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ddinbych,
 Parc Gwledig Loggerheads, ger Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych. CH7 5LH
 ☎ 01352 810614 ✉ parcgwledigloggerheads@sirddinbych.gov.uk

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

www.clwydiancountry.co.uk

www.sirddinbych.gov.uk/cefnngwlad

www.siryffflint.gov.uk/cefnngwlad

www.ygrugarcaerau.co.uk

www.beiciobryniauclwyd.com



Recycled
 Supporting responsible
 use of forest resources

Cert no. TT-COC-2200
www.fsc.org
 © 1996 Forest Stewardship Council



www.ahnebryniauclwyd.org.uk

Gobaith i'r rhostiroedd grug.



Yn aml iawn ystyrir y rhostir grug yn anialwch sydd heb ei gyffwrdd ac sy'n digwydd yn naturiol heb angen unrhyw reoli arno i'w gadw mewn cyflwr da. Ond nid dyna'r gwirionedd o bell ffordd.

Yn y DU ceir tua hanner rhostiroedd grug y byd. Yng Nghymru, fe gollwyd tua 40% ohonyn nhw ers yr ail Ryfel Byd drwy amaethyddiaeth a choedwigaeth. Efallai mai'r rhif sy'n pery'r fwyaf o bryder yw bod tua 70% o'n rhostiroedd grug mewn cyflwr gwael, heb ei reoli mae peryg ei golli.

Yn y dechrau, fe sefydlodd y grug ei hunan ar briddoedd gwael nad oedd wedi'i wella'n amaethyddol. Yn draddodiadol, caiff ei losgi neu ei dorri er mwyn gwaredu'r hen dyfiant a rhoi hwb i'r egin grug a'r llus adfywio.



Mae'r tyfiant ifanc hwn yn borfa wych i'r defaid sy'n anifeiliaid gwyh am reoli'r rhostir grug. Hefyd, mae'r defaid yn bwyta'r coed ifanc a heb i hyn ddigwydd byddai'r ardal yn troi'n ôl yn goetir yn fuan iawn a byddai'r cynefin prin a phwysig hwn yn cael ei golli yn y diwedd.

Mae torri a llosgi, gan greu amrywiaeth o oedran o ran y grug, yn hanfodol er mwyn i fywyd gwyllt y mynydd allu goroesi, ac yn arbennig er mwyn yr adar sy'n nythu ar y ddaear. Rhaid i'r rugiar ddu, sy'n swil ac yn brin, gael grug dwfn i lochesu ynddo rhag ysglyfaethwyr a hefyd mae arnyn nhw angen tir moel agored ar gyfer defodau arddangos, a thyfiant newydd ar gyfer bwyd.

Mae'r defaid yn hanfodol i'n tir mynydd, ond mae ei niferoedd yn disgyn wrth i arferion ffermio newid. Mae llai o weithwyr ar ffermydd ac mae mwy o ffermio ar diroedd isel sy'n golygu bod angen mwy o amser a llafur i reoli'r tir mynydd ac mae'n lle llai deniadol i roi defaid yma i bori. Yn dilyn y lleihad mewn cadw a rheoli defaid, fe ddirywiodd y cynefin am fod rhedyn a coed yn meddiannu'r tir a bod llai o amrywiaeth oedran o ran y grug. Bydd hyn yn 'gylch dieflig' yn y diwedd. Wrth i'r ardal fynd yn fwy anodd ei ffermio bydd nifer y defaid yn lleihau. Ar wahân i fwy o reoli, gallwn hefyd fod o gymorth i ffermwyr mynydd Cymru drwy brynu cig oen Cymru. Mae gwneud tir uchel yn gynhyrchiol yn waith caled ond yn werth chweil yn y diwedd - cig oen sydd wedi bod yn pori ar y grug a'r llus.



Er gwaetha'r rheolaeth ddwys sydd ei angen, mae'r ffermwyr a chadwraethwyr ar Fryniau Clwyd yn dal yn ymroddgar i reoli'r mynydd dir. Bydd Moel Famau yn enwedig yn gallu elwa drwy'r cynllun Tir- Gofal a bydd cytundebau Rhan 15 gyda'r Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynyddu rheolaeth y tir mynydd ar Fynyddoedd Llantysilio. Mae cyflwr y rhostiroedd yn yr ardal yn gwella ac maen nhw unwaith eto yn dod yn fwy posib i'r amaethyddiaeth a'r bywyd gwylt ffynnu.

Mae'r mynydd grug yn un o'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr a hardd a, diolch i waith caled y ffermwyr; Llywodraeth Cynulliad Cymru; gweithwyr Tir Gofal; Project y Grug a'r Caerau; Staff y Gwasanaeth Cefn Gwlad; gwirfoddolwyr ac ymwelwyr brwd; bydd yn parhau i oroesi yma er mwyn i bawb ei fwynhau yn y dyfodol.

www.ygrugarcaerau.co.uk

Gwobr Twristiaeth Gynaliadwy

Mae Bryniau Clwyd AHNE yn dathlu derbyn gwobr Siarter Ewrop am Dwristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd a warchodwyd. Dyma'r amcanion sylfaenol:

- Codi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth i ardaloedd gwarchodedig Ewrop fel rhan sylfaenol o'n treftadaeth y dylid ei chadw er mwyn y genhedlaeth bresennol a'r rhai sydd i ddod allu'i mwynhau.
- Gwella'r datblygiad cynaliadwy a rheolaeth twristiaeth mewn mannau a warchodwyd gan ystyried anghenion yr amgylchedd, y trigolion lleol, busnesau lleol ac ymwelwyr.

Mae'r cynllun datblygiad gwledig yn cynnal strategaeth twristiaeth a cynllun gweithredu am bum

mlynedd gan ddarparu Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (a gyflogwyd gan Gadwyn Clwyd) ac £550,000 arfaethedig i weithredu'r cynllun.

Bydd Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy Bryniau Clwyd AHNE yn llywio'r cynllun gweithredu a'r strategaeth at y dyfodol. Os ydych chi'n berchen ar fusnes sy'n ymwneud â thwristiaeth, neu os ydych chi'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy yn ardal Bryniau Clwyd, neu â diddordeb ynddo yna ffoniwch 01352 810614.





POLION

Cerdded Nordig ym Mrynau Clwyd

Yn y 1930au y dechreuodd Cerdded Nordig yn ddull o hyfforddi sgiwyr traws gwlad yn ystod yr haf. Drwy ddefnyddio'r polion mae bob rhan y corff yn ymarfer gan losgi dros 20% yn fwy o galoriau na cherdded heb bolion. Dyma un o'r gweithgareddau ffitrwydd sy'n tyfu gyflyma yn y byd a phobl yn cymryd rhan mewn bron 40 o wledydd. Dangosodd ymchwil ei fod yn cryfhau rhan uchaf y corff ac yn defnyddio 90% o'r mas cyhyrau. Mae'n llosgi braster, yn tynhau'r breichiau, y frest, cefn yr ysgwyddau, y bol, y cluniau, y pen ôl a thop y goes.

Ffeithiau:

- Yn ymarfer 90% o'ch cyhyrau.
- Yn llosgi 20% yn fwy o galoriau na cherdded heb bolion ar yr un cyflymdra.
- Codi curiad y galon yn uwch na cherdded arferol.
- Mwy o ymarfer gyda llai o ymdrech.
- Lleihau'r pwysau ar y pengliniau a'r cyhyrau eraill.
- Gall lleihau'r tensiwn ar y gwddf ac ar gyhyrau'r ysgwyddau.
- Gall lleihau poen cefn a gwella hyblygrwydd yr asgwrn cefn.
- Yn cryfhau esgyrn rhan uchaf a rhan isaf y corff gan frwydro yn erbyn effaith osteoporosis.

“Dw i wedi fy argyhoeddi o fanteision Cerdded Nordig. Dw i'n mwynhau cerdded ond heb fod mor ffit ag y bues i ac yn dioddef o boen cefn. Dw i'n sicr fod defnyddio'r polion Nordig wrth gerdded yn rhyddhau fy asgwrn cefn ac yn ymarfer cyhyrau rhan uchaf y corff sy'n llonydd fel arfer.”

“Cerddais gan ddefnyddio polion Nordig gyda ffrindiau i fyny Moel Famau yn ddiweddar ac roeddwn yn gallu cynnal sgwrs yn fwy hawdd na'r arfer. Mae hyn yn digwydd, mae'n debyg, am fod defnyddio llawer o gyhyrau gwahanol yn llai o straen ar fy ysgyfaint.”

“Cerddais i Loggerheads ar hyd llwybr y Lit o Bant-y-mwyn ac am fod rhai rhannau'r llwybr yn serth fe ddefnyddiais fy mholion i gadw cydbwysedd ac roedd hynny'n rhoi hyder imi.”

“Roedd y polion yn cymryd pwysau oddi wrth fy nghymalau ac felly dydw i ddim yn dioddef gymaint ar ôl taith gerdded ag roeddwn i o'r blaen.”

“Wnes i gyfarfod llawer o bobl newydd drwy ymuno â'r grŵp Nordig.”



Gellir benthycu Polion Nordig o Barc Gwledig Loggerheads. Trefnir sesiynau hyfforddi'n rheolaidd i sicrhau fod y polion yn cael eu defnyddio'n gywir ac i gael y gorau ohonynt.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01745 356197 neu e-bostiwch parcgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk

Loggerheads

yn chwifio'r Faner Werdd

Mae Parc Gwledig Loggerheads yn dathlu derbyn gwobr bwysig Y Faner Werdd.

Lleolir Loggerheads yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae'n lle poblogaidd dros ben ac yn denu dros 200,000 o ymwelwyr yn flynyddol.

Dechreuodd y cynllun Y Faner Werdd yn 1996 er mwyn cydnabod a gwobrwyo'r lleoedd gwyrdd gorau yn y wlad. Dyma ffordd i ysgogi pobl eraill i gyrraedd yr un safonau uchel o ran yr amgylchedd gan greu maen prawf o ragoriaeth mewn ardaloedd gwyrdd lle gellir hamddena.



“Mae Loggerheads yn lle hynod o boblogaidd gan ddenu dros **200,000** o ymwelwyr bob blwyddyn.”

Bernir bob safle yn ôl ei haeddiannau ac yn ôl pa mor briodol y bo i'r gymuned mae'n ei wasanaethu. Rhoddir y gwobrwyon hyn bob blwyddyn a rhaid i'r enillwyr wneud cais bob blwyddyn i adnewyddu'u statws Faner Werdd. Bu staff y Parc Gwledig, Caffi Florence a'r gwirfoddolwyr gwych yn gweithio'n ddiflino i sicrhau y byddai eu cais am wobr y Faner Werdd yn llwyddiannus. Diolch o galon a llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Y DECHNOLEG NEWYDD.....

Mae Bryniau Clwyd ar y blaen o ran defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn bod yn gymorth ichi fwynhau eich profiad o'r AHNE. P'un ai chwilio am daith gerdded, ymlacio, neu bod yn egniol rydych chi, rydym wrthi'n defnyddio'r dechnoleg newydd er mwyn bod yn gymorth ichi ddarganfod a mwynhau'r wlad o'ch cwpas.

Clywed lleisiau ar Foel Famau

Mae taith sain ar gael erbyn hyn ar gyfer y prif lwybr i Dwr y Jiwbilî ar gopa Moel Famau.

'Feddyliais i ddim mai tomen gladdu Oes yr Efydd sydd yma!'

Yn ystod y tywydd poeth, prin a gawsom mi fues i'n disgwyl am ddiwrnod cymylog addas er mwyn rhoi cais ar y daith sain i dwr y Jiwbilî. Ychydig a wn i am hanes yr ardal ac felly roedd gen i ddiddordeb dysgu sut roedd y llwybr yn cael ei gyflwyno a beth allwn i ddarganfod.

Mae chwe phwynt sain ar hyd y daith. Gallwch eu clywed drwy ffonio'r rhif lleol 01352 230123.

Mae yma arweiniad hwylus a chyflwyniad ac yna gallwch gychwyn ar y daith. Ar bob un o'r pwyntiau sain ceir disc bach ar bostyn pren. Rhaid ichi ffonio'r rhif a dilyn y dewisiadau i'r pwynt sain rydych chi eisiau **Tip: Ar bwynt 2 sylweddolais y gallwch osgoi gwrando ar y cyflwyniad drwy bwysu 2 ac yna 2 eto ac yna rhif y pwynt sain rydych chi am ei glywed nesaf.**

Yr hyn sy'n gwneud y daith sain mor wahanol yw pa mor hawdd ei dilyn mae hi. Does dim rhaid prynu llyfr nac ymuno mewn taith dywysedig a gallwch fwynhau'r storïau wrth eich pwysau. Mae'r storïau'n datgelu llawer. Allwch chi ddim cael yr wybodaeth fyw hon allan o lyfr, mae'r dystiolaeth yna o'ch blaen chi. Roeddwn wedi bod yn pendroni beth oedd y grŵp o greigiau gwahanol yn ei wneud ar un darn o'r llwybr. Cefais fy synnu o ddysgu mai tomen gladdu Oes Yr Efydd sydd yma. Hefyd, roeddwn yn gallu adnabod adar wrth eu galwadau gan fy mod newydd eu clywed ar fy ffon symudol. Roedd yr holl brofiad yn ffordd o roi gwybodaeth imi. Does neb am weld paneli gwybodaeth yn amharu ar yr olygfa ac felly roeddwn i'n deall yn iawn pam roedden nhw wedi dewis gwneud hyn.

Wrth imi deithio ar hyd y llwybr, sylweddolais fod yr wybodaeth wedi'i osod mewn trefn resymegol. Roeddwn yn symud ar hyd llinell amser ac yn clywed sut roedd pobl wedi defnyddio'r dirwedd hon yn ystod y miloedd blynnyddoedd hyd at yr eglurhad o'r toriadau yn y grug ar y rhostir a luniwyd i helpu'r bywyd gwyllt oroesi.

Bu'n ddiwrnod prysur. Roedd unigolion, cyplau, teuluoedd yn mwynhau'u cinio, beicwyr (yn gwthio'r beic, diolch fyth!) a dros ddeg ar hugain o beldroedwyr yn hyfforddi drwy redeg – ac edrych yn flinedig iawn. Wrth stopio i'r rhedwyr basio cefais gyfle i gael fy ngwynt ataf ar gyfer y darn nesaf i dwr y Jiwbiłi. Roedd fy meddwl yn cael ei dynnu oddi wrth y dringo gan y wybodaeth ar y ffôn am yr hen wal gerrig. **Tip: Yn y fan yma roeddwn wedi difaru peidio dod â'r ffonau clustiau i'r ffôn symudol am fy mod yn blino dal y ffôn at fy nghlust.**

Roeddwn yn ddiolchgar dros ben i gael cyrraedd y copa ac i ymlacio wrth droed Twr y Jiwbiłi am baned a thamaid cyn ffonio'r rhif am y tro olaf. Roeddwn wedi disgwyl clywed ar bwynt sain 6- Beth

ydy twr y jiwbiłi? Ond roedd yma fwy na ffeithiau, roedd synau a phrofiadau personol ac roedd hyn yn cyfrannu'n fawr at y stori gyfan.



Tip: Coffiwch wisgo clustffon, yna bydd dim angen dal eich ffôn at eich clust!

Dyma ychwanegiad gwych at y profiad o Foel Famau. I'r rhai hynny sy'n ddieithr i'r ardal neu i'r rhai sy'n dod 'nôl yn rheolaidd bydd y llwybr sain hwn yn rhoi ichi'r syniad o le ac yn eich annog i sefyll yn y lleoedd allweddol gan eich arwain drwy'r hanesion a luniodd Moel Famau.

Ar hyd y llwybr sain hwn gallwch ddipio i mewn ac allan a gweld rhywbeth sydd o ddiddordeb ichi. Cost yr alwad fydd y gost am alwad lleol ac mae'r rhain yn cynnwys y munudau am ddim os ydych ar gcontract. Neu gallwch lwytho i lawr i'ch MP4 am ddim neu i'ch iPod o www.heatherandhillforts.co.uk neu gallwch wrando gartref cyn cychwyn.

Earthcaching

Mae'r gamp Earthcaching, sy'n amrywio o Geocaching, yn gêm antur a helpa drysor gan ddefnyddio'r derbynnydd GPS. Mae'n tywys y rhai sy'n cymryd rhan at nifer o drysorau cudd (caches) ar y ddaear. Gallant fod wedi'u seilio ar lwybr, tirnod neu safle. O gymharu a'r geocache nid oes gan earthcache bresenoldeb corfforol ar y ddaear. Lleoedd arbennig yw Earthcaches y gall pobl ymweld â nhw a dysgu am y nodwedd unigryw o wyddor Daear neu a, ryw agwedd ar y Ddaear. Gall ymwelwyr ag Earthcache weld sut gafodd y blaned ei llunio heb achosi difrod i'r cefn gwlad www.earthcache.org

Gwefannau

Mae gwefannau'n gallu cyfoethogi'ch profiad o'r Cefn Gwlad. Mae'n arbennig o wir am Fryniau Clwyd.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

Ar y wefan hon cewch olygfa 360° o gopa Moel Famau a gallwch ddefnyddio'r llygoden i gael gweld yr olygfa o unrhyw ongl. Mae yma ddull llunio teithiau hefyd lle gallwch lunio'r daith cyn cychwyn allan.

www.clwydiancountry.co.uk

Dyma safle gwych ichi gynllunio ble i aros a beth i'w wneud. Sefydlwyd a rhedir gan fusnesau twristiaeth lleol ym Mryniau Clwyd.

www.beiciobryniauclwyd.com

Llwybr beicio rhyngweithredol, teithlenni i'w llwytho i lawr a'r holl wybodaeth sydd ei hangen am ymweliad fydd yn pwmpio'r adrenalin.

www.ygrugarcaerau.co.uk

Amcan y Cynllun Partneriaeth y Grug a'r Caerau yw

gwarchod a chodi'r ymwybyddiaeth o gynefinoedd y rhostir grug a'r dreftadaeth Caerau Oes yr Haearn ar Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio. Ar y wefan hon ceir ffotofap o'r awyr sy'n rhyngweithredol, a gallwch chwyddo'r map. Ceir yma nifer o weithgareddau hwyliog i'r holl deulu.

www.sirddinbych.gov.uk/cefnngwlad

Dyma rai o'r taflenni y gallwch eu llwytho i lawr o'r safle hon; O Gwmpas yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau hwyliog i'r teulu, teithiau cerdded gydag arweinydd a gweithgareddau ymarferol. 23 o safleoedd Cefn Gwlad Sir Ddinbych ichi ymweld â nhw. Ceir gwybodaeth am y lleoedd poblogaidd i fynd i'w gweld. Teithiau yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych. Llyfr sy'n gyforiog o nifer o deithiau cerdded rhyfeddol, i'w gael am ddim.

'O Lerpwl i Loggerheads'

*Bu pobl glannau Merswy'n dod i
Loggerheads ac ardal Moel Famau
ers cenedlaethau.*

Roedd plant glannau Merswy'n ceisio am loches yma yn ystod blynyddoedd y rhyfel ac yn ddiweddarach daeth pobl ifanc yma i ddianc rhag y ddinas ac i fwynhau'r awyr agored. Bu cenedlaethau o blant yn dod i Golomendy. Bu eraill yn dod ar feic neu gyda'r sgowntiaid a'r geidiaid ar y bysiau Crosville neu gyda phabell neu garafán. Daeth rhai pobl Glannau Merswy yn ôl i Gymru i weithio neu i ymddeol a symudodd nifer o Gymru i Lerpwl i weithio neu i astudio.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bûm yn ddigon ffodus i gael gweithio gyda staff Bryniau Clwyd AHNE ar broiect cyffrous i ddathlu'r cysylltiadau diwylliannol hyn drwy'r cyhoeddwyr lleol, Alyn Books, a dderbyniodd grant oddi wrth y Gronfa Datblygiad Cynaliadwy Bryniau Clwyd AHNE. Roeddwn wrth fy modd derbyn comisiwn i wneud ymchwil fanylach i'r cysylltiadau hyn ac i gyhoeddi llyfr dathlu.

Mae'r llyfr wedi'i seilio ar atgofion nifer fawr o bobl Glannau Merswy a Chymru a fu'n rhannu'u hanesion diddorol gyda ni. Ceir nifer o hen ffotograffau i ddarlunio'r llyfr. Daeth nifer o bobl at ei gilydd i'r Diwrnodau Atgofion yn Loggerheads a Lerpwl. Siaradais â llawer iawn o bobl eraill a welodd erthyglau yn y wasg ac fe ddatgelodd fy ymchwil nifer o hanesion eraill i ychwanegu at gyfoeth y llyfr.

Bu'n broiect twym galon o ganlyniad i groeso a brwdfrydedd y rhai a gyfrannodd ato, ac yn daith bersonol i mi fy hunan am fod fy rhieni wedi dod o Lerpwl yn wreiddiol. Cefais fy syfrdanu gan y diddordeb a greodd y project sy'n adlewyrchu cryfder y berthynas sydd rhwng y ddwy ardal.



Dyfyniad o'r llyfr....

"Roeddem yn arfer chwarae yn y peirannau yn y parc bach.

Yr un roeddem yn ei hoffi oedd y peiriant sioc trydan.

Am hwyl! - talu ceiniog i gael sioc trydan!"

Gordon Jones



"Roeddem wrth ein bodd mynd i'r gerddi te, chwarae yn yr afon a dringo'r creigiau.

Roedd cychod siglo yn y parc, rhain oedd y gorau gen i.

Dw i'n cofio cael dweud y drefn am fynd y n rhy uchel"

Betty Earps

Ar y bws i Loggerheads

Mae gan lawer o bobl atgofion melyn am drip diwrnod i Loggerheads ar y bws Crosville. Yn ystod y 1920au fe ddechreuodd y brodyr Crosland Taylor, sylfaenwyr Gwasanaethau Modur Crosville, redeg gwasanaethau o Birkenhead i Loggerheads a Phant-y-mwyn. Prynasant 74 o erwau o dir yn Loggerheads a sefydlu The Crosville Tea Gardens, gan godi tŷ te mawr a datblygu'r gerddi gan osod band stand, grin pwtyn, cychod siglo pren, llyn cychod, peiriannau slot a nifer o atyniadau eraill. Gallai'r ymwelwyr gerdded ar lan yr afon a thrwy'r coed gan ddringo'n serth i'r Cat Walk ar ben y creigiau. Bu'r datblygiad yn llwyddiannus dros ben ac fe redodd y bysiau bob hanner awr yn yr haf a bob awr yn y gaeaf. Ar noson o haf byddai'r bysiau'n rhedeg tan yn hwyr a byddai torf yn aros am y bws olaf i Birkenhead.



Loggerheads to Liverpool gan Lorna Jenner

ISBN 978-0-9559625-2-3 Pris £11.95

Copïau ar gael o Ganolfan Cefn Gwlad Loggerheads a siopau llyfrau lleol.



PAN FYDD BUSNESAU'N YMUNO...

Dechreuodd Prestatyn sefydlu'i hunan yn gyrchfan twristiaid pan ddaeth y rheilffordd yma yn 1848. Mae pobl yn dal i fwynhau'r diwrnodiau hir o haf, yr awyr iach a'r golygfeydd o'r arfordir. Mae busnesau Prestatyn yn cydweithio i ddenu mwy o ymwelwyr gan dargedu'r farchnad cerddwyr.

Heddiw yw diwrnod cyntaf gŵyl gerdded Prestatyn, ac er gwaethaf y cymylau a'r glaw mân mae pobl yn llenwi neuadd yr eglwys i gofrestru. Mae llawer o'r teithiau cerdded yn cychwyn o'r man canolog hwn - oddi ar y Stryd Fawr ond bu llwyddiant yr ŵyl yn golygu bod mwy o deithiau ar y cyffiniau wedi'u cynnwys.

Dringaf i fyny drwy'r gerddi am fod un o'r teithiau'n cynnwys lansio cyfres o weithiau celf gyhoeddus. Caf olwg rhyfeddol a digon swrreal o dri o filwyr Rhufeinig yn arwain byddin o gerddwyr tuag ataf i fyny'r Stryd Fawr. Bu Gerddi'r Bryn yn lle poblogaidd i ymwelwyr ers 1911 pan gerddai pobl i fyny i weld yr olygfa o ben y bryn, sy'n gychwyn ar daith Bryniau Clwyd AHNE sy'n digwydd heddiw.

Mae cysylltiadau Rhufeinig cryf yn y dref gydag adfeillion nodedig baddondai cyfagos. Bu'r 'milwyr Rhufeinig' yn helpu i ddadorchuddio helmed Rufeinig anferth yn y gerddi. Roedd y wasg leol yn bresennol ac rydw i'n meddwl mai peth craff iawn oedd dadorchuddio'r cerflun yn ystod yr ŵyl gerdded am ei fod yn enghraifft o'r modd mae busnesau, yr awdurdod lleol a'r trigolion yn gallu cydweithio.

Roedd nifer o bobl leol yn y dyrfa ac yn sôn eu bod yn falch dros ben o'r buddsoddi i wella Prestatyn yn ddiweddar. Roedd rhai o arweinwyr gwirfoddol wrthi'n edmygu coesau'r Milwr Rhufeinig. Drwyddi draw, caed yr argraff fod yma'r ymdeimlad o berchenogaeth.

Ffurfiwyd Cymdeithas Prestatyn a'r Cylch yn 1995 i wella economi tref Prestatyn. Gan gydweithio gyda staff Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Tref Prestatyn a Bryniau Clwyd AHNE fe gyfrannodd y grŵp tuag at ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Twf Busnes.

Gall datblygu Cynllun Strategaeth a Gweithredu, a ffurfio grŵp busnes fod yn hanfodol i ddod o hyd i'r grantiau ariannu sydd ar gael. Mae nifer o gyrff ariannu'n gwrthod derbyn ceisiadau oddi wrth fusnesau unigol neu'r awdurdod lleol, felly mae ffurfio'r grwpiau hyn yn agor posibiliadau i ddod ag arian angenrheidiol i'r ardal. Mae nifer o fanteision eraill hefyd. Nid yw pobl yn rhedeg busnes llwyddiannus heb rywfaint o synnwyr cyffredin ganddynt. Gall dwyn y bobl fentrus hyn at ei gilydd fod yn gyffrous a gall arwain at rai syniadau ysbrydoledig a gwella'r berthynas gweithio.



Dangosodd Prestatyn pa mor llwyddiannus all cydweithio fod. Mae'r ŵyl gerdded yn ei phumed flwyddyn ac eleni bu 1117 o bobl yn cymryd rhan ynddi. Amcangyfrifir bod o leiaf 10 o bobl wedi aros dros nos ac fe elwodd nifer o fusnesau oherwydd yr arian ychwanegol a wariwyd. Siaradais ag un pâr o Swydd Efrog oedd yn aros mewn Gwely a Brecwast lleol am y penwythnos ac oedd wedi clywed am yr ŵyl ar y Wefan 'Croeso i Gerddwyr'. Roedd pâr arall o Swydd Caerhirfryn wedi mwynhau gymaint maen nhw'n bwriadu dod a 20 o gerddwyr i ŵyl y flwyddyn nesaf. Yn 2008 y derbyniodd Garthmelyd y statws Croeso i Gerddwyr - dyma'r gymuned gyntaf yng Nghymru a'r drydedd yn y DU i'w derbyn gan sicrhau ei henw yn dref unedig ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu canolfan wych i gerddwyr. Cynhaliwyd y gynhadledd genedlaethol Croeso i Gerddwyr ym Mhrestatyn yn 2008 gan ddenu 55 o ddirprwyon o'r DU ac fe wariwyd £3000 yn yr ardal leol. Mae derbyn y statws hwn yn cadarnhau enw da'r dref fel lle da i ymwelwyr ddod i fwynhau'r awyr agored ac mae'n fantais i'r economi leol. Lleolir Prestatyn mewn lle da ar ddechrau neu ddiwedd Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ac yn agos at Fryniau Clwyd AHNE. Mae'n lle da i gynnig nifer gwahanol o brofiadau i gerddwyr ac ymwelwyr ar y llwybrau lleol a'r rhai hir gan roi cyfle iddyn nhw ddarganfod y safleoedd cefn gwlad sydd yn yr ardal.




Gwariwyd £1.5 miliwn ym Mhrestatyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fe drawsnewidiwyd y dref drwy'r arian hwn, a ddaeth o nifer o ffynonellau gwahanol. Daethpwyd â bywyd newydd i lan y môr, adnewyddwyd y gerddi hanesyddol, mae'r ganolfan Clawdd Offa yn gaffi ac yn fan gwybodaeth, ceir gwaith celf rhagorol mewn mannau allweddol, adnewyddwyd y Sinema Scala ac mae rhannau o'r Stryd Fawr wedi'u goleuo ar noson oer o aeaf. Daeth nifer fawr o fanteision eraill i dref Prestatyn ac un o amcanion y grŵp busnes a'r partneriaid yw gwneud yn fawr o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Gosodwyd mes pres (symbol y Llwybr Cenedlaethol) ar y colofnau lampau sy'n rhedeg i lawr o'r Gerddi, ar hyd y stryd fawr ac i'r Traeth Canol. Ymhlith y cyfleoedd eraill i gerdded ceir Llwybr Arfordir Cymru. Os ydych chi'n wirioneddol frwd gallwch gerdded holl arfordir Cymru ac yna Llwybr Clawdd Offa gan gwblhau 1000 o filltiroedd o gerdded mewn cylch!

Os ydych chi'n rhan o'r busnes twristiaeth yn Sir Ddinbych neu Sir y Fflint mae llawer iawn o adnoddau ar gael o grantiau bach i dripiâu cyfarwyddo i'r bryngeyrydd Oes yr Haearn Lleol a hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a chyngor. Ffoniwch 01352 810614 a gallwn ddangos y ffordd ichi.

I gael gwybod mwy am Brestatyn ewch
www.visitprestatyn.com ,
www.prestatynwalkingfestival.co.uk a
www.walkersarewelcome.org.uk.

GOLWG GEOAMYWIAETH AR HEN FFEFRYN

Bryn Alun- taith gerdded 4 milltir mewn cylch drwy dirweddau rhyfeddol a luniwyd gan y môr ac a gerfiwyd gan yr ia.



Pellter: 6.4m/4 milltir

Amser: Tua 2–2.5 awr

Parcio a chychwyn: Maes parcio Pistyll Gwyn

Cyf. Grid: SJ189573, OS Explorer map 265

Graddfa: Cymedrol (i fyny ac i lawr, rhai llwybrau anodd eu gweld)

Cyfleusterau: The Sun Inn, Eryrys. Tel: 01824 780402

Cyngor: Cymerwch ofal, mae'r pafin calchfaen gwlyb yn llithrig

Mae llawer o fathau o fwynhad i'w cael ar Fryniau Clwyd AHNE, rhai'n fwy cyfarwydd na'i gilydd. Ar Fryn Alun ceir un o balmentydd calchfaen mwyaf Gogledd Cymru ac yma caiff yr ymwelydd ei ad-dalu'n hael a chyfle dihafal i fwynhau'r geoamrywiaeth sydd ar Fryniau Clwyd a thu hwnt...

Pethau prin yw'r palmentydd calchfaen ac maent yn cael eu gwarchod. Treuliyd miliynau o flynyddoedd yn eu ffurfio. Maen nhw naill ai'n wastad neu ychydig ar oledf ac mae'r wyneb calchfaen agored yn debyg i balmant artiffisial.

Gan gychwyn yn Chwarel Pistyll Gwyn (1), a ddarparodd gerrig i

faes awyr Sealand, cerddwch i fyny a heibio'r chwarel ble mae haenau o galchfaen. Mae'r llwybr yn ein tywys i'r calchfaen ar dir uchel a heibio'r llethrau sgrî serth (2) ble gellir gweld proffil grisiau Bryn Alun. Yna awn i lawr i'r lôn sydd mewn cwm rhewlif sych a gerfiodd yr iâ rhyw 20,000 o flynyddoedd yn ôl.



Gan gerdded ar i fyny eto, ar y llaw dde gwelir maen mawr, crwn. Yr enw ar y fath hon o faen yw 'Maen Crwydro' a gludwyd yma o ardal Eryri gan yr iâ a'i adael yma pan doddodd yr iâ 17,000 o flynyddoedd yn ôl. Wrth gerdded i fyny tua llinell y gorwel ac i'r palmant calchfaen, efallai y gwelwch ffosiliau yn y graig. Mae'r garreg galch yn gartref i nifer o blanhigion arbenigol fel tegeirian, cwlwm cariad a'r duegredynen gwallt y forwyn.

Hefyd, gwelir planhigion bach 'bonsai' yn y greiciau a'r hafnau o ganlyniad i anifeiliaid yn pori. Ar ddiwrnod braf gallwch weld Tŵr Blackpool, eglwysi cadeiriol Lerpwl, Peak District, Bwlch yr Oernant, Mynyddoedd y Berwyn, Eryri, Moel Famau a Bryniau Clwyd – yr oll yn syfrdanol.

Dilynwch y llwybr i lawr dros y bryn. Rydym yn cerdded heibio'r pyllau mwyn mawr. Roedd y diwydiant plwm, mwyn sydd o fewn i'r gwythiennau'r calchfaen, yn ddiwydiant enfawr a ddaeth i ben yng nghanol y 19fed ganrif. Adfeilion Mwynglawdd Belgrave yw'r pridd, y tomenni baw a'r hen adeiladau. Edrychwch yn graff - efallai gwelwch grisialau calsit ar y llwybr.



Rhed gweddill y daith heibio i olion eraill y diwydiant plwm; fel chwareli bychain, siafftiau â chaead arnyn nhw, a Nant Westminster sy'n Dŷ Injan bwmpio Rhestredig II (4) cyn dod i ben yn y maes parcio.

Dyma daith gerdded i roi blas ichi ar ddylanwad y ddaeareg ar ddiwylliant a threftadaeth Bryniau Clwyd AHNE, a'r geoamrywiaeth.



Ceir y daith hon yn y llyfr
'**Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych**' a
'**Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir Fflint**'.

Mae copïau ar gael am ddim o Ganolfan Cefn Gwlad Loggerheads, Canolfannau Croeso a llyfrgelloedd. Mae ar gael i'w lwytho i lawr o
www.sirddinbych.gov.uk/cefngwlad
www.sirfflint.gov.uk/cefngwlad
- cliciwch ar Cerdded yn y Cefn Gwlad.

Gwasanaeth Bws Bryniau Clwyd yn'r ffordd orau i ddarganfod Bryniau Clwyd AHNE...



Ceir
arweiniad i fws
Bryniau Clwyd yn y
gorsafoedd bysiau lleol,
Canolfannau Croeso,
llyfrgelloedd a Chanolfan
Cefn Gwlad
Loggerheads.

Gwasanaeth bws yn ystod yr haf yw bws Bryniau Clwyd. Mae'n rhedeg o ddechrau Mehefin hyd ddiwedd Medi ar y Suliau ac ar dydd Llun yr gŵyl y Banc. Mae'n cysylltu mannau cychwyn y teithiau cerdded a phentrefi Bryniau Clwyd gyda Chaer, trefi Gogledd Cymru a'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Eleni ceir cysylltiadau newydd o'r Rhyl, Prestatyn a Llangollen i Barc Gwledig Moel Famau - sydd â Thŵr y Jiwbilf a Choedwig Llandegla yn goron ar ei phen-. Gallwch logi beic a mwynhau'r llwybrau seiclo oddi ar y ffyrdd (www.coedllandegla.com).

Pam defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle teithio yn y car?

- Mae'n well i'r amgylchedd - dyma'r rheswm gorau i deithio ar fws ac yn arbennig mewn ardal warchod.
- Mae'n iachach ichi! Mae hyd yn oed y daith gerdded fer at yr arosfa bws bob dydd yn cyfrannu at eich ymarfer corfforol.
- Mae'n garedicach i'ch pwrs! Yn ddibynnol ar y pellter, gall fod yn well am werth eich arian os nad ydych yn gorfod talu am betrol ac am barcio. Os prynwch docyn Bws Bryniau Clwyd am y diwrnod bydd gennych fodd di-ben-draw i deithio ar nifer o wasanaethau.
- Gallwch fwynhau'r olygfa. Os ydych chi'n gyrru'r car, allwch chi ddim edrych o'ch cwrmpas a mwynhau golygfeydd Bryniau Clwyd. Ar y bws, rydych yn rhydd i edrych o gwmpas ac mae'r olygfa'n well o fws sy'n uwch na char.
- Nid oes straen chwilio am le parcio. On'd ydy chwilio am le i barcio yn rhwystredig? Does dim angen poeni am le parcio pan deithiwch ar fws!

“Dyma le **syfrdanol** i
ymweld ag o a rhaid inni
ei amddiffyn.

Drwy gefnogi bws
Bryniau Clwyd rydym yn
gobeithio bydd pobl yn
gadael eu ceir a mwynhau
ymlacio yn
ystod ymweliad
cynaliadwy
â Bryniau Clwyd.”



I gael gwybod mwy, ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 2002233